# CYFIAWNDER ADFEROL

Mae Cyfiawnder Adferol yn dod â'r rhai sydd wedi eu niweidio gan droseddau a'r rhai sydd wedi cyflawni'r troseddau at ei gilydd i alluogi pawb a effeithiwyd i chwarae rhan wrth adfer y niwed hwnnw. Mae'n rhoi grym i ddioddefwyr a gall eu cynorthwyo i symud ymlaen. Gall gynnwys cyfarfod â throseddwr wyneb yn wyneb mewn amgylchfyd a reolir er mwyn i chi gael dweud eich dweud a holi cwestiynau y gall ond nhw eu hateb. Byddwch yn gallu egluro wrthynt sut ydych wedi cael eich effeithio. Os nad ydych eisiau cyfarfod â'r troseddwr yn bersonol, gellir edrych ar opsiynau eraill. Mae Cyfiawnder Adferol yn canolbwyntio ar ddioddefwyr a bydd eich anghenion yn cael eu blaenoriaethu drwyddo draw.

“Dwi ond isho fo edrych i fyw fy llygaid i, dweud sori a'i olygu fo”

“Dwi isho gwybod pam ar adeg cyflawni'r drosedd, y gwnaeth ddweud celwydd wrtha i a thrio fy argyhoeddi nad oedd o wedi gwneud dim o'i le”

“Dwi isho gwybod os wneith y broses hon ei newid o fel unigolyn a'i rwystro rhag ymosod ar rywun arall”

“Dwi isho gwybod beth oedd yn ei feddwl ar y pryd”

## PWY SY'N ADDAS?

Mae'r cod dioddefwyr yn dweud fod gan holl ddioddefwyr troseddau hawl i dderbyn gwybodaeth am Gyfiawnder Adferol a sut i gael mynediad ato. Mae'n broses wirfoddol a cheir caniatâd gan yr holl bartïon sy'n cymryd rhan. Mae'r broses yn cael asesiad risg a rhaid i'r troseddwr dderbyn cyfrifoldeb am y niwed a achoswyd. Os nodir risg o ddioddef eto, efallai na fydd y broses yn parhau.

“Buaswn yn annog unrhyw un i fynd ymlaen. Mae bob achos yn unigol ond fe weithiodd i fi. Roeddwn yn gallu gweld ei fod o fudd i'r dioddefwr ac rwyf yn ddiolchgar am hynny
(troseddwr euog)”

## BETH MAE HYN YN EI OLYGU?

Byddwch yn cyfarfod â hwylusydd Cyfiawnder Adferol a wnaiff siarad â chi am y trosedd. Gwnânt ofyn i chi am yr hyn ddigwyddodd yn ystod y digwyddiad a sut y cawsoch eich effeithio. Sut oeddech yn teimlo ar y pryd a sut ydych yn teimlo rŵan? Gwnaiff yr hwylusydd gofnodi unrhyw gwestiynau yr ydych eisiau ei ofyn i'r troseddwr ac ymdrin ag unrhyw bryderon.

“Bydd rhan ohona i yn flin am byth. Ni wna i anghofio ei wyneb, na'r emosiwn, ond mi allai faddau”

*Nid yw'n angenrheidiol i chi gynnig maddeuant i'r un wnaeth eich niweidio.

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

Bydd eich opsiynau'n cael eu hegluro i chi. Efallai na fyddwch eisiau cyfarfod yn uniongyrchol gyda'r troseddwr. Efallai byddai ymdriniaeth "mynd a dod" gyda hwylusydd yn y canol er mwyn i gyfathrebu ddigwydd neu lythyr yn well.

Nid oes raid i chi benderfynu ar y pryd os ydych eisiau parhau. Chi sy'n rheoli'r broses. Gwnaiff yr hwylusydd yna gyfarfod â'r troseddwr ac edrych ar yr un broses.

“Roeddwn i'n hynod falch o'r cynllunio cam wrth gam a pheidio cael fy rhuthro. Roedd gen i ddigon o amser i baratoi”

## PWY FYDD YN ELWA?

Mae Cyfiawnder Adferol yn rhoi anghenion y dioddefwyr gyntaf. Mae dioddefwyr yn aml eisiau deall pam y digwyddodd y trosedd iddynt ac maent eisiau dylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd i'r un wnaeth droseddu.

Mae rhai dioddefwyr eisiau gwybod eu bod yn annhebygol o gael eu niweidio gan yr un un eto. Nid yw Cyfiawnder Adferol yn opsiwn ysgafn i droseddwyr .

Mae'r broses hefyd yn rhoi cyfle i droseddwyr wynebu canlyniadau eu gweithredoedd. Nid yw Cyfiawnder Adferol yn opsiwn ysgafn ac ni wnaiff arwain at droseddwyr yn osgoi cosb. Nid yw'n effeithio ar unrhyw ddedfryd a roddir gan y llys. Mae'r Ymchwil yn dangos fod cyfiawnder adferol yn gysylltiedig gyda lefelau uchel o fodloni dioddefwyr.

“Mae'n anodd profi edifeirwch. "Rwyf eisiau rhoi rhywfaint o derfyniad ond yn fwy na dim rwyf eisiau dweud mae'n ddrwg iawn, iawn gen i”

“I initially declined taking part in the process through fear and felt I would never be able to provide enough (for the victim), I was worried about facing the victim”

“Mi wnes i wrthod cymryd rhan yn y broses i ddechrau oherwydd ofn. Roeddwn yn teimlo na fyddwn yn gallu rhoi digon (i'r dioddefwr). Roeddwn yn poeni am wynebu'r dioddefwr”

“Y rhan orau o'r broses i fi oedd pan ddywedodd hi "mae angen i chi faddau eich hun a symud ymlaen" a'i bod yn maddau i mi. Roedd yn syrpreis neis”

## BETH SYDD YN DIGWYDD NESAF?

Cysylltwch â PC Alex Challinor, Swyddog Cyfiawnder Adferol Heddlu Gogledd Cymru os hoffech wybod mwy am y broses a'ch galluogi i wneud dewis mwy gwybodus:

**Restorativejustice.officer@nthwales.pnn.police.uk**

**01745 588847**

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE